



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi'r agweddau hynny ar Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli clwy'r traed a'r genau ("y Gyfarwyddeb") sy'n ymwneud â brechu yn erbyn clwy'r traed a'r genau. Mae Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006, sy'n dod i rym yr un diwrnod â'r Rheoliadau hyn, a Rheoliadau Deddf Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) 2005, yn rhoi effaith i weddill darpariaethau'r Gyfarwyddeb. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn Weithredol ar 31 Ionawr a daethant i rym ar 1 Chwefror 2006.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn y diffiniad o "carcase" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg a ddarperir yn cyfeirio at "hide" a "skin". Mae'r testun Cymraeg fe ymddengys yn ceisio cadw'r gwahaniaeth gyda defnyddio'r geiriau "croen" a "pilennau". Yr arfer yw defnyddio "croen" yn unig i gyfateb i "skin" a "hide", ac fe wneir hyn ym mharagraff 15 yr Atodlen. Mae'r defnydd o "pilennau" yma felly yn wahaniaeth di-angen. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "inspector" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn darparu fod y penodiad "o dan y

Ddeddf". Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "minced meat" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn darparu fod yn rhaid iddo gynnwys "less than 1% salt". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "llai nag 1% o fraster" [fat]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "premises" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn darparu ei fod yn "includes any land, building or other place". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at ""yn cynnwys tir, gydag adeiladau neu hebddynt" [includes land, with buildings or without]. [Standing Order 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "suppressive vaccination" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "outside the premises or area". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio "tu allan i'r daliad neu'r ardal" [outside the holding or area]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae'r diffiniad o "parth gwyliadwraeth" [surveillance zone] yn anghyflawn. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "veterinary inspector" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "a veterinary inspector appointed under the Act". Nid yw'r testun Cymraeg yn cynnwys "milfeddygol" [veterinary] yn y diffiniad, er ei fod wedi'i gynnwys yn y term diffiniedig. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "parth gwyliadwraeth brechu" [vaccination surveillance zone], mae'r gair "brechu" ar goll o'r diffiniad er ei fod wedi'i gynnwys yn y term diffiniedig. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn rheoliad 2(2), mae'r esboniad yn Saesneg yn cychwyn gyda "specified as an animal to be vaccinated". Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio "anifail sydd i'w frechu" [an animal to be vaccinated]. Mae'r elfen "specified" neu benodol ar goll o'r testun Cymraeg er ei fod wedi'i gynnwys yn y term diffiniedig. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae'r rhain oll yn wallau drafftio neu deipio a fyddai wedi bod yn briodol i'w cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau. Bellach bydd yn rhaid eu cywiro trwy ddiwygio deddfwriaeth.

Sylwadau

Mae'r termau Cymraeg cyfatebol wedi'u hepgor o'r testun Saesneg. Gan fod hyn yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n defnyddio'r ddau destun, dylent gael eu cynnwys bob amser.

Fe fyddai defnyddio sillafwyr electronaidd yn y ddwy iaith wedi osgoi nifer o wallau sillafu a nodwyd yn y ddwy iaith.

Gellir delio gyda'r ddau fater hwn wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

14 Mawrth 2006